**ATODIAD 6**

**TRETH CYNGOR**

1. Mae'n benderfyniad allweddol i aelodau'r Cyngor llawn wneud, yn sgil yr ystyriaethau cyflwynir yma, i sefydlu union lefel y cynnydd Treth Cyngor ar gyfer 2020/21. Yr allwedd i hyn yw cael y balans yn briodol rhwng yr angen i wario ar wasanaethau i'r rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas, a'r cynnydd treth sydd yn addas i'w godi ar drigolion Gwynedd.

2. Yn y tybiaethau hanesyddol a wnaed yn ein strategaeth ariannol tymor canolig, defnyddiwyd ffigwr o 3.5%, fel amcangyfrif o'r cynnydd cyfartalog yng Nghymru. Erbyn 2019/20, roedd setliad grant Llywodraeth Cymru yn siomedig, ac roedd raid codi'r dreth 5.8%.

3. Eleni, erbyn 2020/21 argymhellir codi'r dreth 3.9%, fydd yn cynhyrchu £74.3m o dreth, yn cynnwys £2.7m o gynnyrch Premiwm a £2.8m o incwm ychwanegol tuag at y bwlch. Byddai hynny'n gyfystyr i gynnydd yn y Dreth Cyngor o £54.09 i eiddo mewn Band D, neu £1.04 yr wythnos. Bydd y dreth a godir gan y cynghorau cymuned a'r Awdurdod Heddlu yn ychwanegol i hyn wrth gwrs.

4. Mae dros 15.6% o dai sy'n atebol i dalu treth yng Ngwynedd yn derbyn rhyw elfen o gymorth tuag at eu Treth Cyngor, ac mae dros 60% o eiddo Gwynedd mewn bandiau is na band D. Byddai pob 0.1% ychwanegol o dreth yn addasu'r bwlch ariannol y byddem angen ei ddarganfod o tua £71,460. Felly, byddai 0.5% yn golygu addasu'r bwlch ariannol tua £357,310 tra byddai 1% yn golygu addasu'r bwlch ariannol o tua £714,620.

5. Nodir isod y cynnydd a welwyd yn Nhreth Cyngor Gwynedd, a'r cynnydd a welwyd ar gyfartaledd ar draws Cymru, ers 2014/15:

| Blwyddyn | Gwynedd | Cymru |
|---|---|---|
| 2019/20 | 5.8% | 6.2% |
| 2018/19 | 4.8% | 5.0% |
| 2017/18 | 2.8% | 3.1% |
| 2016/17 | 4.0% | 3.7% |
| 2015/16 | 4.5% | 4.3% |
| 2014/15 | 3.9% | 4.2% |
| Cyfanswm 2014-20 | 25.8% | 26.5% |
| Cyfartaledd 2014-20 | 4.3% | 4.4% |

Yn 2019/20 roedd lefel Treth Cyngor Band D Cyngor Gwynedd yn £1,376, tra roedd lefel treth cyfartalog siroedd Cymru yn £1,294.

https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-03/council-tax-levels-in-wales-april-2019-march-2020-651.pdf

6. Ni wyddom yn union eto beth fydd y cyfartaledd cynnydd ar draws Cymru yn 2020/21, ond yr wybodaeth ddiweddaraf sydd gennyf yw bydd y cyfartaledd ar draws Cymru tua 4.5%. Felly, mae'r cynnig gerbron am fod yn is na lefel cyfartaledd Cymru erbyn 2020/21, ac felly yn cadw at y polisi hir-dymor.

7. Mae'r dewis rhwng cynnal gwasanaethau a threthu o hyd yn un anodd, wrth gwrs, a mater i'r holl aelodau yw pwyso a mesur a dod i'r balans y maent yn ystyried sy'n briodol. Fodd bynnag, ymhellach i sawl sgwrs anffurfiol yn y gweithdai aelodau, **argymhellir cynnydd Treth Cyngor o 3.9%, fyddai'n gynnydd wythnosol o £1.04, neu £54.09 yn flynyddol, gyda threth 'Band D' o £1,430.31 am 2020/21.**

**CYNNYRCH PREMIWM TRETH CYNGOR AR EIDDO GWAG AC AIL GARTREFI**

8. Yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 19 Rhagfyr 2019, penderfynwyd parhau gyda'r premiwm o 50% ar ail gartrefi ac ar eiddo sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy am 2020/21. Amcangyfrifir bydd y Cyngor yn derbyn £2.7m o incwm ychwanegol yn 2020/21 trwy godi'r premiwm, a bwriedir neilltuo'r arian mewn cronfa er mwyn gweithredu'r Strategaeth Tai, fydd yn anelu i ddarparu tai ar gyfer pobl ifanc yn ein cymunedau.

9. Rhaid ymgorffori'r holl incwm a cyfarch gwariant perthnasol yng nghyllideb 2020/21.